# Adnodd yn seiliedig ar bwnc

# Sbwriel

## Cyfnod Allweddol 2 (Lefel is)



Eco-Schools

Eco-Sgolion

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

# Gwybodaeth gefndirol

Mae sbwriel yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf o blant yn ymwybodol ohono o oedran ifanc. Yn anffodus, mae ym mhob man o'u hamgylch, ond mae'n rhywbeth y gallant wneud gwahaniaeth iddo a theimlo wedi'u grymuso wrth wneud hynny. Mae casglu sbwriel yn caniatáu i blant weld canlyniadau eu gweithredoedd yn syth sy'n bwysig i blant bach. Yna, gallant ystyried goblygiadau taflu sbwriel a helpu i ddylanwadu ar eu teulu a ffrindiau, o bosib.



# Safbwynt hinsawdd

Plastig yw un o'r llygryddion mwyaf hir ei barhad ar y Ddaear. Gall bara am 400 mlynedd neu fwy. Ac ar bob cam yn ei oes, hyd yn oed ymhell ar ôl iddo gael ei daflu, mae plastig yn creu allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at gynhesu ein hinsawdd. Wrth iddo bydru yn yr amgylchedd, mae'n creu micro blastigau sy'n llygru'r tir a'r môr. Mae'n bwysig ein bod yn lleihau ein defnydd o blastig, yn enwedig eitemau untro. Wrth i blant ddechrau sylweddoli beth sy'n digwydd i eitemau ar ôl i ni orffen gyda nhw, gyda lwc byddant yn edrych ar eu defnydd eu hunain o eitemau a sut maent yn cael gwared arnynt.

# Beth am gasglu sbwriel!
## Cyfnod Allweddol 2 (Lefel Is)

## Casglu sbwriel gyda gêm 'gwir neu anwir'

Mae'r gweithgaredd hwn yn annog plant i edrych ar eu hardal eu hunain a chymryd ychydig o gyfrifoldeb. Drwy gasglu sbwriel gallant deimlo fel eu bod yn gwneud gwahaniaeth. Byddant hefyd yn dysgu rhai ffeithiau diddorol am sbwriel, a bydd rhai ohonynt yn anodd eu credu!

## Deunyddiau sydd eu hangen:

- Offer casglu sbwriel (efallai fod gennych rai yn yr ysgol eisoes neu bydd sefydliadau lleol, megis cynghorau, yn aml yn fodlon benthyg offer)
- Cardiau Gwir neu Anwir
- Taflen ffeithiau sbwriel




Cyn y sesiwn, gwiriwch yr ardal lle byddwch yn casglu sbwriel i sicrhau nad oes unrhyw sbwriel a allai fod yn niweidiol a gwnewch yn siŵr fod gennych asesiad risg priodol yn ei le.

### Cam 1

Siaradwch â'r plant am bwysigrwydd casglu sbwriel a'r niwed y gall sbwriel ei wneud i'r amgylchedd e.e. perygl i anifeiliaid ac adar a llygru'r eco system. Ewch ati i gasglu sbwriel mewn ardal.dewisol Efallai yr hoffech i'r plant gasglu sbwriel o dir eu hysgol eu hunain neu'r ardal leol.



### Cam 2



Didolwch y sbwriel i weld beth sy'n ymddangos fwyaf. Gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio siartiau tali neu greu siart far ffisegol gyda'r sbwriel. Trafodwch pam y gallai fod yna fwy o un math o sbwriel.

## Cam 3

**Gwir neu Anwir (Cardiau isod)**

Gosodwch yr arwydd 'Gwir' ar un ochr o'ch ardal ac 'Anwir' ar yr ochr arall. Mae angen i'r plant sefyll mewn grŵp yn y canol.

Darllenwch un o'r ffeithiau sbwriel yn uchel a gofynnwch i'r plant benderfynu a yw'n wir neu'n anwir, yn eu tyb nhw, ac yna rhedeg at yr arwydd hwnnw.

# Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

**Maes Dysgu a Phrofiad -** Y Dyniaethau

**Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:**

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

# Camau nesaf a syniadau eraill

- Trafodwch beth i'w wneud gyda'r sbwriel maent wedi'i gasglu. A ellir ei ddidoli ar gyfer ailgylchu?
- Ysgrifennwch stori greadigol gan feddwl am daith darn o sbwriel e.e. pecyn creision o weithgynhyrchu, i'w lenwi gyda chreision a'i werthu mewn siop cyn cael ei daflu ar y llawr, a'r anturiaethau eraill y mae'n eu cael â sbwriel arall ar y stryd.
- Gallech roi cynnig ar wneud darn o gelf gyda'r sbwriel a gesglir.

Gwefannau gyda gweithgareddau sbwriel yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl ar gasglu sbwriel.

https://www.changeworks.org.uk/sites/default/files/Waste-education-resources-for-primary-and-secondary-schools.pdf

https://www.herefordshire.gov.uk/downloads/file/13401/stop_the_drop_primary_school_litter_resource_pack.pdf

http://www.litteraction.org.uk/images/Whole%20School%20Litter%20Campaign%20pack.pdf

https://www.cprenorthants.org.uk/primaryschools/

<u>Gwir neu Anwir?</u>

- Mae mwy na dwy filiwn o ddarnau o sbwriel yn cael eu gollwng yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn - *Gwir*
  *Gan olygu cost o fwy na 1 biliwn o bunnoedd i'r trethdalwr (https://www.keepbritaintidy.org/faqs/advice/litter-and-law)*

- Mae croen banana yn cymryd 1 flwyddyn i bydru ar y stryd – *Anwir*
  *Gall gymryd hyd at ddwy flynedd os caiff ei adael ar y stryd. Mae'r broses hon yn gynt os caiff ei gompostio (*keepbritaintidy.org)

- Mae bag papur yn cymryd hyd at 1 mis i bydru yn dibynnu ar lle caiff ei ollwng. (Keep Britain Tidy) - *Gwir*

- Mae gwm cnoi sy'n cael ei ollwng ar y llawr yn cymryd 500 mlynedd i fio-ddiraddio - *Anwir*
  *Nid yw byth yn bio-ddiraddio, dim ond malu yn ddarnau llai*

- Un tro cafodd NASA ddirwy am daflu sbwriel ar ôl i ddarn o rwbel o'r gofod lanio yn Awstralia - *Gwir*
  *Roedd y ddirwy yn $400*

- Cafodd dyn yn Singapôr ddirwy o $15000 am daflu pen sigarét drwy ffenestr. - *Gwir*

- Dim ond bagiau creision a photeli plastig a phapurau pethau da yw sbwriel - *Anwir*
  *Mae sbwriel yn cynnwys popeth sy'n cael ei daflu o bennau sigarennau a chalonnau afalau i boteli gwydr, oergelloedd a matresi. Dylid cael gwared ar bopeth yn briodol.*

- Mae mwy na 180,000 o fagiau o sbwriel yn cael eu clirio o draffyrdd a ffyrdd A pwysig gan Highways England bob blwyddyn. - *Gwir*

- Dim ond 20% o boteli plastig sy'n cael eu hailgylchu ar draws y byd bob blwyddyn - *Anwir*
  *7% yw'r gwir ffigwr (Cyfeillion y Ddaear)*

- Mae 2.5 biliwn o gwpanau coffi untro yn cael eu taflu bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig yn unig - *Gwir (Cyfeillion y Ddaear)*

GWIR

ANWIR

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4011164 Rhif Cofrestru'r Elusen: 1082058 Rhif Cofrestru TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13